



OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

**2020 Rhif 1329 (Cy. 295)**

**2020 No. 1329 (W. 295)**

**IECHYD Y CYHOEDD,  
CYMRU**

**PUBLIC HEALTH, WALES**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd  
(Coronafeirws, Teithio  
Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio)  
(Rhif 20) 2020**

**The Health Protection  
(Coronavirus, International Travel)  
(Wales) (Amendment) (No. 20)  
Regulations 2020**

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

*(This note is not part of the Regulations)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132)) (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"). Diwygiwyd y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn flaenorol gan:

These Regulations amend the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) Regulations 2020 (S.I. 2020/574 (W. 132)) (the "International Travel Regulations"). The International Travel Regulations have been previously amended by:

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 (O.S. 2020/595) (Cy. 136);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/714) (Cy. 160);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/726) (Cy. 163);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/804) (Cy. 177);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 (O.S. 2020/817) (Cy. 179);

- the Health Protection (Coronavirus, Public Health Information for Persons Travelling to Wales etc.) Regulations 2020 (S.I. 2020/595) (W. 136);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel and Public Health Information to Travellers) (Wales) (Amendment) Regulations 2020 (S.I. 2020/714) (W. 160);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) Regulations 2020 (S.I. 2020/726) (W. 163);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 2) Regulations 2020 (S.I. 2020/804) (W. 177);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 3) Regulations 2020 (S.I. 2020/817) (W. 179);

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020 (O.S. 2020/840) (Cy. 185);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 (O.S. 2020/868) (Cy. 190);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 (O.S. 2020/886) (Cy. 196);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020 (O.S. 2020/917) (Cy. 205);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) 2020 (O.S. 2020/944) (Cy. 210);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 9) 2020 (O.S. 2020/962) (Cy. 216);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 10) 2020 (O.S. 2020/981) (Cy. 220);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11) 2020 (O.S. 2020/1015) (Cy. 226);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2020 (O.S. 2020/1042) (Cy. 231);
- Gorchymyn Trosgrwyddo Swyddogaethau (Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Tramor, y Gymanwlad a Datblygu) 2020 (O.S. 2020/942);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) 2020 (O.S. 2020/1080) (Cy. 243);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 14) 2020 (O.S. 2020/1098) (Cy. 249);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 15) 2020 (O.S. 2020/1133) (Cy. 258);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 4) Regulations 2020 (S.I. 2020/840) (W. 185);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 5) Regulations 2020 (S.I. 2020/868) (W. 190);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 6) Regulations 2020 (S.I. 2020/886) (W. 196);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 7) Regulations 2020 (S.I. 2020/917) (W. 205);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 8) Regulations 2020 (S.I. 2020/944) (W. 210);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 9) Regulations 2020 (S.I. 2020/962) (W. 216);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 10) Regulations 2020 (S.I. 2020/981) (W. 220);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 11) Regulations 2020 (S.I. 2020/1015) (W. 226);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 12) Regulations 2020 (S.I. 2020/1042) (W. 231);
- the Transfer of Functions (Secretary of State for Foreign, Commonwealth and Development Affairs) Order 2020 (S.I. 2020/942);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 13) Regulations 2020 (S.I. 2020/1080) (W. 243);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 14) Regulations 2020 (S.I. 2020/1098) (W. 249);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 15) Regulations 2020 (S.I. 2020/1133) (W. 258);

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 16) 2020 (O.S. 2020/1165) (Cy. 263);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 17) 2020 (O.S. 2020/1191) (Cy. 269);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 18) 2020 (O.S. 2020/1223) (Cy. 277);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2020 (O.S. 2020/1232) (Cy. 278);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1237) (Cy. 279);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1288) (Cy. 286).
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 16) Regulations 2020 (S.I. 2020/1165) (W. 263);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 17) Regulations 2020 (S.I. 2020/1191) (W. 269);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 18) Regulations 2020 (S.I. 2020/1223) (W. 277);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 19) Regulations 2020 (S.I. 2020/1232) (W. 278);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel and Restrictions) (Amendment) (Wales) Regulations 2020 (S.I. 2020/1237) (W. 279);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel and Restrictions) (Amendment) (No. 2) (Wales) Regulations 2020 (S.I. 2020/1288) (W. 286).

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod i'w bennu yn unol â'r Rheoliadau. Mae gofynion y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi eu hesemptio rhag gorfod cydymffurfio. Nid yw'n ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Cyfeirir at y gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 fel "gwledydd a thiriogaethau esempt".

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn ychwanegu Bonaire, Sint Eustatius a Saba, Cymanwlad Ynysoedd Gogledd Mariana, Dinas Jerwsalem, Gweriniaeth Namibia, Gweriniaeth Rwanda, Israel, Sri Lanka, Uruguay ac Ynysoedd y Wryf yr Unol Daleithiau at y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt.

Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â'r newid yn statws y gwledydd a'r tiriogaethau hyn. Mae'r ddarpariaeth drosiannol yn ymdrin â maes a all fod yn destun amheuaeth o ran effaith y diwygiadau a wneir gan rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn ar weithredu'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

The International Travel Regulations impose requirements on persons entering Wales after having been abroad. They include a requirement for persons arriving in Wales to isolate for a period determined in accordance with the Regulations. The requirements imposed by the International Travel Regulations are subject to exceptions, and certain categories of person are exempt from having to comply. Persons entering Wales after being in one or more of the countries and territories listed in Schedule 3 to the International Travel Regulations are not required to isolate. The countries and territories listed in Schedule 3 are referred to as "exempt countries and territories".

Part 2 of these Regulations amends the list of exempt countries and territories.

Regulation 2 of these Regulations amends the International Travel Regulations to add Bonaire, Sint Eustatius and Saba, Commonwealth of the Northern Mariana Islands, Israel, the City of Jerusalem, the Republic of Namibia, Republic of Rwanda, Sri Lanka, Uruguay and the Virgin Islands of the United States to the list of exempt countries and territories.

Regulation 3 of these Regulations makes transitional provision relating to these countries' change of status. The transitional provision addresses a potential area of doubt in terms of the effect on the operation of the International Travel Regulations, of the amendments made by regulation 2 of these Regulations.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 4 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gofyniad i ddarparu gwybodaeth am deithiwr) sy'n ei gwneud yn ofynnol i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ar long neu awyren i ddarparu gwybodaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol bod gwybodaeth am deithiwr yn cael ei darparu wrth gyrraedd Cymru, neu cyn cyrraedd Cymru.

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 2 (personau esempt) i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Mae Atodlen 2 i'r Rheoliadau hynny yn esemptio categorïau penodol o weithwyr rhag gorfod darparu gwybodaeth am deithiwr a rhag gorfod ynysu.

Mae Rhan 5 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau amrywiol i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Part 3 of these Regulations amends regulation 4 of the International Travel Regulations (requirement to provide passenger information) which requires persons arriving in Wales by ship or aircraft to provide information to the Secretary of State. Regulation 4 of these Regulations requires passenger information to be provided on or before arrival in Wales.

Part 4 of these Regulations amends Schedule 2 (exempt persons) to the International Travel Regulations. Schedule 2 to those Regulations exempts certain categories of worker from having to provide passenger information and from having to isolate.

Part 5 of the Regulations makes miscellaneous amendments to the International Travel Regulations.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has not been prepared as to the likely cost and benefit of complying with these Regulations.

**2020 Rhif 1329 (Cy. 295)**

**2020 No. 1329 (W. 295)**

**IECHYD Y CYHOEDD,  
CYMRU**

**PUBLIC HEALTH, WALES**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd  
(Coronafeirws, Teithio  
Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio)  
(Rhif 20) 2020**

**The Health Protection  
(Coronavirus, International Travel)  
(Wales) (Amendment) (No. 20)  
Regulations 2020**

*Gwnaed am 3.02 p.m. ar 20 Tachwedd 2020*

*Made at 3.02 p.m. on 20 November 2020*

*Gosodwyd gerbron Senedd  
Cymru am 7.00 p.m. ar 20 Tachwedd 2020*

*Laid before Senedd  
Cymru at 7.00 p.m. on 20 November 2020*

*Yn dod i rym am 4.00 a.m. ar 21 Tachwedd  
2020*

*Coming into force at 4.00 a.m. on 21  
November 2020*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on them by sections 45B and 45P(2) of the Public Health (Control of Disease) Act 1984(1), make the following Regulations.

**RHAN 1**

**PART 1**

**Cyffredinol**

**General**

**Enwi, dod i rym a dehongli**

**Title, coming into force and interpretation**

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 20) 2020.

1.—(1) The title of these Regulations is the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 20) Regulations 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 4.00 a.m. ar 21 Tachwedd 2020.

(2) These Regulations come into force at 4.00 a.m. on 21 November 2020.

---

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaeth o wneud rheoliadau o dan Ran 2A wedi ei rhoi i "the appropriate Minister". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

---

(1) 1984 c. 22. Part 2A was inserted by section 129 of the Health and Social Care Act 2008 (c. 14). The function of making regulations under Part 2A is conferred on "the appropriate Minister". Under section 45T(6) of the 1984 Act the appropriate Minister as respects Wales, is the Welsh Ministers.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr y “Rheoliadau Teithio Rhyngwladol” yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(1).

## RHAN 2

Ychwanegiadau at y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

### Ychwanegiadau at y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt

2.— Yn Rhan 1 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin), yn y lle priodol mewnosoder—

“Bonaire, Sint Eustatius a Saba”  
“Cymanwlad Ynysoedd Gogledd Mariana”  
“Dinas Jerwsalem”(2)  
“Gweriniaeth Namibia”  
“Gweriniaeth Rwanda”  
“Israel”  
“Sri Lanka”  
“Uruguay”  
“Ynysoedd y Wryf yr Unol Daleithiau”.

### Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â rheoliad 2

3.—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan, yn union cyn 4.00 a.m. ar 21 Tachwedd 2020—

(a) oedd person (“P”) yn ddarostyngedig i ofyniad i ynysu yn rhinwedd y ffaith iddo gyrraedd Cymru o wlad neu diriogaeth a restrir yn rheoliad 2, neu ar ôl bod mewn gwlad neu diriogaeth o'r fath, a

(3) In these Regulations, the “International Travel Regulations” means the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) Regulations 2020(1).

## PART 2

Addition of countries to the list of exempt countries and territories in Schedule 3 to the International Travel Regulations

### Addition of countries to the list of exempt countries and territories

2. In Part 1 of Schedule 3 to the International Travel Regulations (exempt countries and territories outside the common travel area), at the appropriate place insert—

“Bonaire, Sint Eustatius and Saba”  
“Commonwealth of the Northern Mariana Islands”  
“Israel”  
“the City of Jerusalem”(2)  
“Republic of Namibia”  
“Republic of Rwanda”  
“Sri Lanka”  
“Uruguay”  
“Virgin Islands of the United States”.

### Transitional provision in connection with regulation 2

3.—(1) Paragraph (2) applies where, immediately before 4.00 a.m. on 21 November 2020—

(a) a person (“P”) was subject to an isolation requirement by virtue of having arrived in Wales from, or having been in a country or territory listed in regulation 2, and

(1) O.S. 2020/574 (Cy. 132) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/595 (Cy. 136), O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/726 (Cy. 163), O.S. 2020/804 (Cy. 177), O.S. 2020/817 (Cy. 179), O.S. 2020/840 (Cy. 185), O.S. 2020/868 (Cy. 190), O.S. 2020/886 (Cy. 196), O.S. 2020/917 (Cy. 205), O.S. 2020/944 (Cy. 210), O.S. 2020/962 (Cy. 216); O.S. 2020/981 (Cy. 220); O.S. 2020/1015 (Cy. 226), O.S. 2020/1042 (Cy. 231), O.S. 2020/942, O.S. 2020/1080 (Cy. 243), O.S. 2020/1098 (Cy. 249), O.S. 2020/1133 (Cy. 258), O.S. 2020/1165 (Cy. 263), O.S. 2020/1191 (Cy. 269), O.S. 2020/1223 (Cy. 277), O.S. 2020/1232 (Cy. 278), O.S. 2020/1237 (Cy. 279) ac O.S. 2020/1288 (Cy. 286).

(2) Ystyr y cyfeiriad hwn at Jerwsalem yw Dinas Jerwsalem yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys Dwyrain Jerwsalem a'r Tiriogaethau Palestinaidd.

(1) S.I. 2020/574 (W. 132) as amended by S.I. 2020/595 (W. 136), S.I. 2020/714 (W. 160), S.I. 2020/726 (W. 163), S.I. 2020/804 (W. 177), S.I. 2020/817 (W. 179), S.I. 2020/840 (W. 185), S.I. 2020/868 (W. 190), S.I. 2020/886 (W. 196), S.I. 2020/917 (W. 205), S.I. 2020/944 (W. 210), S.I. 2020/962 (W. 216), S.I. 2020/981 (W. 220), S.I. 2020/1015 (W. 226), S.I. 2020/1042 (W. 231), S.I. 2020/942, S.I. 2020/1080 (W. 243), S.I. 2020/1098 (W. 249), S.I. 2020/1133 (W. 258), S.I. 2020/1165 (W. 263), S.I. 2020/1191 (W. 269), S.I. 2020/1223 (W. 277), S.I. 2020/1232 (W. 278), S.I. 2020/1237 (W. 279) and S.I. 2020/1288 (W. 286).

(2) This reference to Jerusalem means the City of Jerusalem in its entirety, including East Jerusalem in the Palestinian Territories.

(b) diwrnod olaf ynysiad P yw 21 Tachwedd 2020 neu ddiwrnod ar ôl y diwrnod hwnnw.

(2) Nid yw ychwanegu'r wlad a'r diriogaeth a restrir yn rheoliad 2 at Ran 1 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn effeithio ar y gofyniad i ynysu fel y mae'n gymwys i P, nac ar y modd y pennir diwrnod olaf ynysiad P o dan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

(3) Mae paragraff (4) yn gymwys pan fo person ("P")—

(a) yn cyrraedd Cymru am 4.00 a.m. ar 21 Tachwedd 2020 neu wedi hynny, a

(b) wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn rheoliad 2 o fewn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dod i ben â'r diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru.

(4) At ddibenion rheoliadau 7(1) ac 8(1) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, mae'r cwestiwn o ran a yw P wedi cyrraedd Cymru o wlad neu diriogaeth nad yw'n esempt neu ar ôl bod mewn gwlad neu diriogaeth o'r fath i'w bennu, mewn perthynas â gwlad neu diriogaeth a restrir yn rheoliad 2, drwy gyfeirio at ba un a oedd y wlad neu'r diriogaeth yn wlad neu'n diriogaeth nad yw'n esempt pan oedd P yno ddiwethaf (ac nid drwy gyfeirio at statws y wlad neu'r diriogaeth pan fo P yn cyrraedd Cymru).

(5) Yn y rheoliad hwn, mae i "gofyniad i ynysu" yr ystyr a roddir gan rheoliad 10(2) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol; ac mae cyfeiriadau at ddiwrnod olaf ynysiad P i'w dehongli yn unol â rheoliad 12 o'r Rheoliadau hynny.

### RHAN 3

Diwygio rheoliad 4 (gofyniad i ddarparu gwybodaeth am deithiwr) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

#### **Diwygio rheoliad 4 (gofyniad i ddarparu gwybodaeth am deithiwr) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol**

4. Yn rheoliad 4(1) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn lle "cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cyrraedd" rhodder "wrth gyrraedd neu cyn cyrraedd".

(b) P's last day of isolation is 21 November 2020 or a day after that day.

(2) The addition of the country and territory listed in regulation 2 to Part 1 of Schedule 3 to the International Travel Regulations does not affect the isolation requirement as it applies to P, nor affect how P's last day of isolation is determined under the International Travel Regulations.

(3) Paragraph (4) applies where a person ("P")—

(a) arrives in Wales at or after 4.00 a.m. on 21 November 2020, and

(b) was in a country or territory listed in regulation 2 within the period of 14 days ending with the day of P's arrival in Wales.

(4) For the purposes of regulations 7(1) and 8(1) of the International Travel Regulations, the question of whether P has arrived in Wales from, or having been in, a non-exempt country or territory is, in relation to a country or territory listed in regulation 2, to be determined by reference to whether the country or territory was a non-exempt country or territory when P was last there (and not by reference to the country's or the territory's status upon P's arrival in Wales).

(5) In this regulation, "isolation requirement" has the meaning given by regulation 10(2) of the International Travel Regulations; and references to P's last day of isolation are to be interpreted in accordance with regulation 12 of those Regulations.

### PART 3

Amendment to regulation 4 (requirement to provide passenger information) of the International Travel Regulations

#### **Amendment to regulation 4 (requirement to provide passenger information) of the International Travel Regulations**

4. In regulation 4(1) of the International Travel Regulations substitute "as soon as reasonably practicable upon arriving" with "on or before arrival".

## RHAN 4

### Diwygio Rhannau 1 a 2 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

#### **Diwygio Rhan 1 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (personau nad yw'n ofynnol iddynt gydymffurfio â rheoliadau 4, 5, 7 nac 8)**

5. Yn Rhan 1 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (personau nad yw'n ofynnol iddynt gydymffurfio â rheoliadau 4, 5, 7 nac 8), ym mharagraff 1(1)(f) ar ôl “gynhadledd y Deyrnas Unedig” mewnosoder “yn y Deyrnas Unedig”.

#### **Diwygio Rhan 2 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (personau nad yw'n ofynnol iddynt gydymffurfio â rheoliadau 7 nac 8)**

6.—(1) Mae Rhan 2 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (personau nad yw'n ofynnol iddynt gydymffurfio â rheoliadau 7 nac 8), wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle paragraff 13 mewnosoder—

“13.—(1) Unrhyw berson y mae'r Adran berthnasol wedi ardystio ei fod yn bodloni'r disgrifiadau yn is-baragraffau (a), (b) neu (c)—

- (a) gwas i'r Goron neu gontractwr llywodraeth y mae'n ofynnol iddo ymgymryd â gwaith plismona hanfodol neu waith llywodraeth hanfodol yn y Deyrnas Unedig yn ystod y cyfnod y byddai wedi bod yn ofynnol iddo, oni bai am y paragraff hwn, hunanynysu yn unol â rheoliadau 7 neu 8;
- (b) person sy'n dychwelyd o gynnal busnes hanfodol y wladwriaeth y tu allan i'r Deyrnas Unedig;
- (c) person sy'n dychwelyd i'r Deyrnas Unedig pan fo hynny'n angenrheidiol i hwyluso gweithrediad cenhadaeth ddiplomyddol neu swydd gonsylaidd Ei Mawrhydi, neu benodiad milwrol neu benodiad swyddogol arall ar ran Ei Mawrhydi.

(2) At ddibenion is-baragraff (1)—

- (a) ystyr “swydd gonsylaidd” yw unrhyw brif gonswl, conswl, is-gonswl neu asiantaeth gonsylaidd,

## PART 4

### Amendments to Parts 1 and 2 of Schedule 2 to the International Travel Regulations

#### **Amendment to Part 1 of Schedule 2 to the International Travel Regulations (persons not required to comply with regulations 4, 5, 7 or 8)**

5. In Part 1 of Schedule 2 to the International Travel Regulations (persons not required to comply with regulations 4, 5, 7 or 8), in paragraph 1(1)(f) after “conference” insert “in the United Kingdom”.

#### **Amendment to Part 2 of Schedule 2 to the International Travel Regulations (persons not required to comply with regulations 7 or 8)**

6.—(1) Part 2 of Schedule 2 to the International Travel Regulations (persons not required to comply with regulations 7 or 8), is amended as follows.

(2) For paragraph 13 substitute—

“13.—(1) Any person who the relevant Department has certified as meeting the descriptions in sub-paragraph (a), (b) or (c)—

- (a) a crown servant or government contractor who is required to undertake essential policing or essential government work in the United Kingdom within the period during which they would, but for this paragraph, have had to self-isolate in accordance with regulations 7 or 8;
- (b) a person returning from undertaking essential state business outside of the United Kingdom;
- (c) a person returning to the United Kingdom where this is necessary to facilitate the functioning of a diplomatic mission or consular post of Her Majesty or of a military or other official posting on behalf of Her Majesty.

(2) For the purposes of subparagraph (1)—

- (a) “consular post” means any consulate-general, consulate, vice-consulate or consular agency,



- (b) mae i “gwas i’r Goron” yr ystyr a roddir i “Crown servant” yn adran 12(1)(a) i (e) o Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol 1989,
- (c) ystyr “gwaith llywodraeth hanfodol” yw gwaith sydd wedi ei ddynodi felly gan yr Adran berthnasol, ac mae’n cynnwys, yn benodol, waith sy’n gysylltiedig â diogelwch gwladol, gwaith yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol yn unol â’i swyddogaethau statudol, a gwaith sy’n ymwneud â mewnfudo, clefyd y coronafeirws neu unrhyw ymateb argyfwng arall, ond nid yw’n cynnwys gwaith o’r disgrifiad a bennir ym mharagraff 2(1) o Ran 1 o’r Atodlen hon,
- (d) ystyr “plismona hanfodol” yw plismona sydd wedi ei ddynodi felly ar ran y prif swyddog perthnasol neu’r prif gwnstabl perthnasol,
- (e) ystyr “busnes hanfodol y wladwriaeth” yw gweithgaredd a ddynodwyd yn hanfodol i’r Deyrnas Unedig neu Lywodraeth Ei Mawrhydi gan yr Adran berthnasol, ac mae’n cynnwys, yn benodol, drafodaethau dwyochrog neu amlochrog â gwladwriaeth arall neu sefydliad rhyngwladol arall ac ymweliadau â gwladwriaeth arall ar ran y Deyrnas Unedig neu Lywodraeth ei Mawrhydi,
- (f) mae i “contractwr llywodraeth” yr ystyr a roddir i “government contractor” yn adran 12(2) o Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol 1989.”.

(3) Ar ôl paragraff 13 mewnosoder—

“**13A.**—(1) Person sy’n dychwelyd o ymgymryd â gwaith hanfodol neu waith brys y tu allan i’r Deyrnas Unedig, a ardystiwyd gan yr Adran berthnasol yn waith sy’n angenrheidiol i hwyluso gwaith llywodraeth hanfodol neu fusnes hanfodol y wladwriaeth.

(2) At ddibenion is-baragraff (1) mae i “gwaith llywodraeth hanfodol” a “busnes hanfodol y wladwriaeth” yr un ystyr ag a roddir iddynt ym mharagraff 13.”.

(4) Ym mharagraff 35(a)(i) hepgorer “gan gynnwys gwaith sy’n ymwneud â chynnal a chadw ac atgyweirio ceblau tanfor sy’n cysylltu’r Deyrnas Unedig â gwledydd eraill,”.

- (b) “Crown servant” has the meaning given in section 12(1)(a) to (e) of the Official Secrets Act 1989,
- (c) “essential government work” means work which has been designated as such by the relevant Department, and includes, in particular, work related to national security, the work of the National Crime Agency in pursuance of its statutory functions, and work related to immigration, the coronavirus disease or any other crisis response, but does not include work of the description in paragraph 2(1) of Part 1 of this Schedule,
- (d) “essential policing” means activity which has been designated as such on behalf of the relevant chief officer or chief constable,
- (e) “essential state business” means activity which has been designated as essential to the United Kingdom or Her Majesty’s Government by the relevant Department, and includes, in particular, bilateral or multilateral discussions with another state or international organisation and visits to another state on behalf of the United Kingdom or Her Majesty’s Government,
- (f) “government contractor” has the meaning given in section 12(2) of the Official Secrets Act 1989.”.

(3) After paragraph 13 insert—

“**13A.**—(1) A person returning from undertaking essential or emergency work outside of the United Kingdom, which has been certified by the relevant Department as necessary to facilitate essential government work or essential state business.

(2) For the purposes of sub-paragraph (1) “essential government work” and “essential state business” have the same meaning as in paragraph 13.”.

(4) In paragraph 35(a)(i) omit “including work relating to maintenance and repair of submarine cables connecting the United Kingdom with other countries,”.

(5) Ar ôl paragraff 38 mewnosoder—

“39. Person —

- (a) sy'n ymwneud â gosod, cynnal a chadw neu atgyweirio seilwaith telathrebu ffeibr optig tanfor,
- (b) y mae ei rôl yn cefnogi yn uniongyrchol y gwaith o osod, cynnal a chadw neu atgyweirio seilwaith telathrebu ffeibr optig tanfor,

pan fo wedi teithio i'r Deyrnas Unedig yng nghwrs ei waith.”

## RHAN 5

### Diwygiadau Amrywiol i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

#### Diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

7.—(1) Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Rhan 1 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, yn lle'r pennawd rhodder "Gwledydd, tiriogaethau a rhannau o wledydd neu diriogaethau”.

(3) Yn rheoliad 12B(3)(a)(ii) (gwahardd awyrennau a llestrau rhag teithio'n uniongyrchol o Ddenmarc), yn y testun Cymraeg, hepgorer “arall”.

(5) After paragraph 38 insert—

“39. A person —

- (a) who is engaged in the installation, maintenance or repair of subsea fibre optic telecommunications infrastructure,
- (b) whose role directly supports the installation, maintenance or repair of subsea fibre optic telecommunications infrastructure,

where they have travelled to the United Kingdom in the course of their work”.

## PART 5

### Miscellaneous Amendments to the International Travel Regulations

#### Amendment of the International Travel Regulations

7.—(1) The International Travel Regulations are amended as follows.

(2) In Part 1 of Schedule 3 to the International Travel Regulations for the heading substitute “Countries, territories and parts of countries or territories”.

(3) In regulation 12B(3)(a)(ii) (prohibition on the arrival of aircraft and vessels travelling directly from Denmark), in the Welsh language text omit “arall”.

*Vaughan Gething*

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,  
un o Weinidogion Cymru  
Am 3.02 p.m. ar 20 Tachwedd 2020

©©Hawlfraint y Goron 2020

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Minister for Health and Social Services, one of the  
Welsh Ministers  
At 3.02 p.m. on 20 November 2020

© Crown copyright 2020

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.



£6.90

W202011201021 11/2020

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2020/1329>

ISBN 978-0-348-20675-3



9 780348 206753